

Cymorth ar gyfer cyflogwyr Canolfan Byd Gwaith - canllaw byr

# Diswyddo

## Cefnogi pobl sy'n cael eu heffeithio gan ddiswyddo

Mae diswyddiadau yn heriol i bawb. Mae Gwasanaeth Ymateb Cyflym y Ganolfan Byd Gwaith wedi'i ddylunio i roi cymorth a chyngor i weithwyr sy'n cael eu heffeithio gan ddiswyddo. Mae'r gwasanaeth am ddim ac yn cynnig:

- cyngor, gwybodaeth a help i bobl sy'n gwynebu diswyddo gan gynnwys gwybodaeth gyffredinol am fudd-daliadau
- mynediad at gyngor gyrfaoedd yn ogystal â chyngor am sgiliau trosglwyddiadol, hyfforddi ac uwchsgilio
- cymorth gyda CVs a thechnegau chwilio am swydd i helpu pobl ddod o hyd i gyflogaeth newydd.

**Gallwn eich cefnogi cyn gynted â'ch bod 'dan risg' o gael eich diswyddo neu yn ystod eich cyfnod rhybudd. Mae'r cymorth yn parhau am 13 wythnos ar ôl i chi adael y gyflogaeth os nad ydych yn gweithio.**

## Dod o hyd i gyflogaeth newydd

Mae **Help Swyddi** yn wefan y llywodraeth sy'n gyfeillgar i ddefnyddwyr gyda gwybodeth i gefnogi eich chwiliad gwaith.

- **Cyngor i geiswyr gwaith** - CVs a sgiliau cyfweld, cymorth diswyddo a chyngor am fudd-daliadau
- **Sut i chwilio am swydd a chael y gorau o'r cyfryngau cymdeithasol** - awgrymiadau defnyddiol wrth chwilio am swydd yn ogystal â safleoedd cyfryngau cymdeithasol. I weld y swyddi diweddaraf ar X, Twitter yn flaenorol, efallai bydd yn rhaid i chi agor cyfrif. Gwiriwch yn ddyddiol am swyddi, digwyddiadau recriwtio a ffeiriau swyddi yn eich ardal.
- **Chwilio am y swydd gywir -** gwybodaeth am y sectorau a'r mathau o swyddi gwahanol
- **Dod o hyd i swydd yn 50 oed neu drosodd -** gwybodaeth am ein cymorth i bobl hŷn a MOTs Canol Oes

**Help Swyddi**

https://jobhelp.campaign.gov.uk/cymraeg/

**Eich cyswllt y Ganolfan Byd Gwaith**

**Ffoniwch**

**ebost**

**Ebostiwch y Ganolfan Byd Gwaith yn** rrs.enquiries@dwp.gov.uk **gydag unrhyw ymholiadau am golli swydd, hyfforddiant neu gymorth cyflogaeth.**
Rhowch eich cod post a'ch rhif ffôn.

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

RRS001W

# Diswyddo

## Dod o hyd i gyflogaeth newydd (parhad)

- **Gwasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith** - sut mae'r Ganolfan Byd Gwaith, yn unol â'i phartneriaid yn cefnogi pobl wrth chwilio am waith
- **Gwybodaeth am wirfoddoli** - ffordd grêt i drio rhywbeth newydd
- **Help a chymorth** - gwybodaeth budd-daliadau a gofal plant

## Dod o hyd i swydd

Dod o hyd i swydd yw un o'r safleoedd mwyaf chwilio am swydd am ddim yn y DU
Dod o hyd i swydd - GOV.UK (www.gov.uk)

- Mae Dod o hyd i swydd yn cynnig ffordd syml i bobl chwilio am y swyddi diweddaraf trwy leoliad, sector a rôl y swydd
- Mae miloedd o gyflogwyr mawr a bach o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus yn defnyddio'r gwasanaeth sydd hefyd ar gael i asiantaethau recriwtio sy'n recriwtio ar eu rhan
- Creu cyfrif eich hun a chael mynediad i'r safle 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn
- Rheoli eich CVs a'ch rhybuddion ebost. Gwirio eich chwiliadau swydd a cheisiadau am swydd
- Dod o hyd i gyflogwyr sy'n cefnogi'r cynllun Hyderus o ran Anabledd, cynllun cenedlaethol sy'n annog cyflogwyr i recriwtio a chadw pobl sydd ag anableddau a phobl â chyflyrau iechyd. Gall Mynediad at Waith helpu os ydych yn dechrau swydd newydd a bod angen cymorth â chyflwr iechyd neu anabledd arnoch
  Beth yw Mynediad at Waith - GOV.UK

**Dod o hyd i swydd**

https://www.gov.uk/chwilio-am-swydd





## Gwybodaeth bellach

**Gwefannau cwmnïau:** Mae llawer o gwmnïau bach a mawr yn hysbysebu swyddi gwag a gwybodaeth gyrfaoedd ar eu gwefannau. Fel arfer gallwch wneud cais ar-lein. Mae gan gyrff masnach wybodaeth ddefnyddiol ar eu gwefannau hefyd. Mae sefydliadau sector cyhoeddus fel GIG a chynghorau lleol yn dangos swyddi gwag a gwybodaeth gyrfaoedd ar eu gwefannau.

**Papurau newydd, cylchgronau arbenigol, newyddiaduron masnach:** Mae copiau caled a chyhoeddiadau ar-lein yn hysbysebu swyddi.

**Ar lafar:** Gofynnwch i'ch teulu a'ch ffrindiau a ydynt yn ymwybodol o unrhyw swyddi gwag.

**Cyfryngau cymdeithasol:** Yn ogystal â X (Twitter yn flaenorol), Facebook a LinkedIn, gwiriwch safleoedd cwmnïau a swyddi lleol.

**Prentisiaethau:** Swyddi â hyfforddiant sydd ar agor i bobl o bob oed.
Chwilio am brentisiaeth-GOV.UK Os ydych yn brentis ac yn cael eich diswyddo, siaradwch â'ch darparwr hyfforddiant neu ffoniwch 0800 028 4844

**Byrddau swyddi ar-lein a gwefannau:** Defnyddiwch eich peiriant chwilio i chwilio am swyddi yn eich ardal. Mae byrddau swyddi yn hysbysebu swyddi gwag ac yn aml mae gan y rhain ap sydd angen i chi ei lawrlwytho. Mae rhai ar gyfer sector neu ddiwydiant penodol.

**Cynllun Cadw Talent / Talent Retention Scheme (TRS):** Yn cynnwys y sectorau peirianneg, ynni, gweithgynhyrchu, adeiladwaith a hedfanaeth. trs-system.co.uk

**Asiantaethau recriwtio:** Mae asiantaethau yn hysbysebu swyddi llawn amser, rhan amser, dros dro a pharhaol. Gwiriwch y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth (Recruitment Employment Confederation - REC) am asiantaethau sy'n delio â'ch diwydiant. Ar gyfer ceiswyr gwaith : The REC

**Hunangyflogaeth:** Ar gyfer gwybodaeth am fod yn hunangyflogedig:
Busnes a hunangyflogaeth - GOV.UK. Gwiriwch wefan eich cyngor lleol am gynlluniau lleol i helpu pobl dechrau mewn busnes.

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

# Diswyddo

## Cyngor am yrfaoedd, sgiliau a hyfforddiant

**Gyrfa Cymru** – Cymorth diswyddo Llywodraeth Cymru gan gynnwys ei rhaglen ReAct. Ffoniwch 0800 028 4844 Cyflogwyr | Gyrfa Cymru

**National Careers Service** (Lloegr) - cyfoeth o wybodaeth gan gynnwys help diswyddo. Ffoniwch 0800 100 900 https://nationalcareers.service.gov.uk/

**Partnership Action for Continuing Employment** (PACE) - Cymorth diswyddo gan Lywodraeth yr Alban. Ffoniwch 0800 917 8000 http://www.redundancyscotland.co.uk/



## Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS)

ACAS - gwasanaeth annibynnol sy'n rhoi cyngor diduedd am ddim am y gweithle i gyflogwyr a gweithwyr. https://www.acas.org.uk/redundancy

## Budd-daliadau

- Gwybodaeth gyffredinol - Budd-daliadau - GOV.UK (www.gov.uk)
- Cyfrifianellau budd-daliadau annibynnol, anhysbys i wirio beth gallech fod â hawl i'w gael. Cyfrifianellau budd-dal
- **Lwfans Ceisio Gwaith Dull Newydd -** mae'r budd-dal hwn wedi'i seilio ar eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol dros y blynyddoedd diweddar ac nid yw'n berthnasol i gynilion na'r rhan fwyaf o incwm cartref arall. Lwfans Ceisio Gwaith Dull Newydd
- **Credyd Cynhwysol** – Credyd Cynhwysol: gwybodaeth fanwl am hawlwyr
- Redundancy: What financial help can I get? (youtube.com)
- **HelpwrArian -** mae'n dod ynghyd y cymorth a gwasanaethau o dri darparwr canllawiau ariannol a gefnogir gan y llywodraeth sef: y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau a Pension Wise. Cymorth diduedd am ddim gydag arian | HelpwrArian
- Siaradwch â'ch cyflogwr os ydych yn rhan o gynllun pensiwn cwmni.
- Ar gyfer gwybodaeth pensiwn y wladwriaeth: Gwirio rhagolwg o'ch Pensiwn y Wladwriaeth - GOV.UK

**Cyngor ar Bopeth -** gall helpu gydag amrywiaeth o faterion yn cynnwys dyled, cyllid a chyngor am fudd-daliadau. Cyngor ar Bopeth

Os oes angen y canllaw byr hwn arnoch mewn braille, print bras neu sain cysylltwch â rrs.enquiries@dwp.gov.uk

### Budd-daliadau

https://www.gov.uk/cyfrifiannell-budd-daliadau

### ACAS

https://www.acas.org.uk/redundancy

### HelpwrArian

https://www.moneyhelper.org.uk/cy

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau



**Ymwadiad:** Mae cymhwysedd yn berthnasol i rai o'r cynlluniau a mentrau. Mehefin 2024